**Cyngor Cymuned Bryncrug Community Council**

**Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 18fed o Fawrth 2019 am 7:00pm**

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones, Bethan Lawton, Simon Jones

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Griffith Evan Thomas

2. Datgan diddordeb:

Cynghorydd Arwel Pierce - eitem 6 - cais cynllunio
Cynghorydd Simon Jones - eitem 6 - cais cynllunio
Cynghorydd Bethan Lawton - eitem 13 - toiledau cyhoeddus

3. Derbyn cofnodion 18 Chwefror 2019:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir gyda un cywiriad, sef yn eitem 8, Cil Coed yn hytrach na Cil y Coed, gyda'r Cynghorydd Arwel Pierce yn cynnig a'r Cynghorydd Bethan Lawton yn eilio.

4. Ceisiadau Ariannol

4.1 Marie Curie
4.2 Clwb Padlo Dysynni
4.3 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru
4.4 Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd
4.5 Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen
4.6 Tenovus
4.7 Ambiwlans Awyr Cymru

**PENDERFYNIAD:**
4.1 Peidio â rhoi rhodd
4.2 Peidio â rhoi rhodd
4.3 Peidio â rhoi rhodd
4.4 Peidio â rhoi rhodd
4.5 Peidio â rhoi rhodd
4.6 Peidio â rhoi rhodd
4.7 Peidio â rhoi rhodd

5. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101645 | £178.62 |
| Cyllid a Thollau | Yswiriant Gwladol | 101646 | £44.60 |
| B Gwilym | Teleffon | 101647 | £60.25 |
| B Gwilym | Deunydd swyddfa | 101648 | £16.85 |
| B Gwilym | Costau teithio | 101649 | £466.65 |
| Urdd Gobaith Cymru | Clwb Ieuenctid | 101650 | £373.00 |
| Un Llais Cymru | Aelodaeth | 101651 | £117.00 |
| Dŵr Cymru | Dŵr | 101652 | £105.55 |
| Zurich | Yswiriant | 101653 | £617.05 |
| Cyng Alan H Jones | Lwfans Cynghorydd | 101654 | £150.00 |
| Cyng Griffith E Thomas | Lwfans Cynghorydd | 101655 | £150.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau.
I ofyn am gyngor parthed talu lwfansau i Gynghorwyr sydd wedi gadael y cyngor.

6. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Tir ger Bronwylfa, Bryncrug, LL36 9RA (NP5/55/196E):

Bu i'r Cynghorydd Arwel Pierce ddatgan buddiant sydd yn rhagfarnu - byw drws nesaf i'r tir dan ystyriaeth - a bu iddo adael yr ystafell.

Bu i’r Cynghorydd Simon Jones ddatgan buddiant sydd yn rhagfarnu - perthynas agos wedi cyflwyno’r cais cynllunio - a bu iddo adael yr ystafell.

Rhoddwyd y rheolau sefydlog i’r neilltu er mwyn trafod yr eitem, gan nad oedd cworwm yn dilyn dau gynghorydd yn datgan buddiant sydd yn rhagfarnu ac yn gadael y cyfarfod.

**PENDERFYNIAD:** I anfon y sylwadau canlynol:
Pryder y Cyngor ynglŷn â mynedfa i'r datblygiad, yn benodol gweleded cerbydau wrth dynnu allan o'r llain o dir (yn ystod y cyfnod adeiladu a chyfnod gwyliau'r haf, gan fod llawer o gerbydau yn teithio heibio ar y ffordd i'r maes carafanau). Mynegi pryder hefyd am osodiad y ffordd sydd gyferbyn a'r datblygiad (tebyg i gylchfan neu ynys), gan fod nifer o geir yn parcio yno sydd yn neud y ffordd yn gul, yn enwedig ar gyfer carafanau sydd angen mynd heibio yn yr haf.

7. Pympiau Dŵr Hanesyddol:

Yr oedd llythyr wedi ei dderbyn gan Morris & Bates Cyfreithwyr yn cadarnhau bod y pympiau codi dŵr hanesyddol wedi eu cofrestru gan y Gofrestrfa Tir yn enw Cyngor Cymuned Bryncrug.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth parthed cofrestru’r pympiau.
Y Cadeirydd i edrych ar y pympiau dŵr gyda contractwr y Cyngor er mwyn gweld oes angen ffensio.
I anfon llythyr at Gyngor Gwynedd er mwyn gofyn os ydy’r fire hydrant marker ar Ffordd y Felin wedi ei dynnu i lawr yn gyfreithiol/yn swyddogol.

8. Dŵr Cymru - Safle Carthffosiaeth Bryncrug:

Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau bod ymchwiliad manwl wedi ei gynnal o safle carthffosiaeth Bryncrug ac nid oes unrhyw ffynhonnell arwyddocaol ar gyfer sŵn ac arogl.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

9. Liz Saville Roberts AS - Cau Banc Barclays Tywyn:

Derbyniwyd copi gan yr Aelod Seneddol o gofnodion yr oedd wedi ei gynnal gyda Chynghorwyr Tref Tywyn, ble cytunwyd gydag awgrym Cyngor Cymuned Bryncrug i ofyn i Barclays i ohirio cau'r banc tan fis Medi, yn hytrach nac yn fis Mehefin.

Anfonwyd copi o ddeiseb sydd wedi ei drefnu gan yr Aelod Seneddol a’r ddau Gynghorydd Sir ar gyfer Tywyn, yn gofyn i Barclays i gydweithio gydag eraill i ddarparu peiriant ATM i’r dref ac i ohirio cau'r banc tan fis Medi.

Adroddwyd bod y peiriant ATM sydd wedi ei leoli ar wal y tu allan i siop SPAR Tywyn wedi dechrau codi ffi 95c pob tro y cymerir arian allan.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth gan yr Aelod Seneddol.
I hysbysu Barclays bod un o beiriannau ATM yn Nhywyn wedi dechrau codi ffi.
I gylchredeg cyfeiriad Barclays i’r Cynghorwyr

10. Heddlu Gogledd Cymru - ymwybyddiaeth o dactegau i sgamio:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

11. Llythyr gan aelod o’r cyhoedd - Pryder am saethu a diogelwch y cyhoedd yn ardal Aber Dysynni/Afon Dysynni:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth gan yr aelod o’r cyhoedd.
I ysgrifennu at yr aelod o’r cyhoedd er mwyn diolch am y wybodaeth, gan egluro bod y Cyngor wedi trafod y mater yn fanwl ac yn rhannu ei phryderon ynglŷn â diogelwch y cyhoedd a bod y cyngor yn gobeithio y bydd datrysiad yn fuan. Yn y cyfamser, bod y Cyngor yn awgrymu y gelli’r hefyd cysylltu â chyngor Cymuned Llanegryn.

12. Jill Evans ASE - Claddu Gwastraff Niwclear yng Nhymru:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

13. Cyngor Gwynedd - Toiled Cyhoeddus:

Bu i'r Cynghorydd Bethan Lawton ddatgan buddiant sydd ddim yn rhagfarnu - ei swyddogaeth fel Cynghorydd Sir Gwynedd - a bu aros yn y cyfarfod.

**PENDERFYNIAD:** I ohirio'r mater, a'i drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, sef mis Ebrill 2019.

14. Cynghorydd Michael Parry (aelod o Gyngor Tref Pwllheli) - Cais am gefnogaeth - Bwriad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ganoli gwasanaeth fasgwlar yn Ysbyty Glan Clwyd:

**PENDERFYNIAD:** I anfon llythyr at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gofyn iddynt ail-ystyried y penderfyniad, gan anfon copi o'r llythyr at y Cynghorydd Michael Parry.

15. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

- Contractwr y Cyngor wedi atgyweirio'r polion ar derfyn y cae chwarae
- Rhwystrau o amgylch y cae pêl-droed wedi pydru sydd yn gyfrifoldeb y Clwb Pêl-droed dal heb eu atgyweirio, gyda'r Clwb ar lafar yn cytuno i'w atgyweirio ar ddiwedd y tymor pêl-droed

**PENDERFYNIAD:** I atgoffa'r Clwb Pêl-droed bod arian yn ddyledus i'r Cyngor.

16. Clwb Ieuenctid Bryncrug:

Adroddwyd bod 16 wedi mynychu'r noson gyntaf a bod goriad y cwpwrdd sydd yn cynnwys offer y clwb ieuenctid wedi ei golli gan un o aelodau o fwrdd y Ganolfan, gan gynnwys goriad y bwrdd pŵl. Ar yr ail noson, yr oedd 20 wedi mynychu ond yr oedd trafferthion ar gychwyn y noson gan nad oedd y Ganolfan ar agor.

**PENDERFYNIAD:** I ddiolch i'r Cynghorydd Bethan Lawton am ei gwaith o ail-sefydlu y Clwb Ieuenctid ym Mryncrug.
I geisio cael goriadau i'r bwrdd pŵl.

17. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

- Cyngor Gwynedd wedi codi'r dreth 5.8%, yn wreiddiol ystyriwyd ei godi 5.5%
- Y dreth wedi ei godi yn uwch oherwydd er mwyn gwarchod y cyfraniad sydd yn cael ei roi i Gymorth i Ferched, gwasanaeth eiriolaeth i blant a'r cynllun parcio am ddim dros y Nadolig
- Ysgol Craig Aderyn yn eithriadol o lawn, yn sgil plant a theuluoedd yn symud i mewn i'r ardal

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth

18. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddodd bod diffyg arwyddion ar yr A487 ger Minffordd er mwyn hysbysu gyrwyr bod Pont ar Ddyfi wedi cau o ganlyniad i lifogydd.

Adroddwyd bod gan gwr lleol ddiddordeb mewn ymuno a'r Cyngor fel cynghorydd.

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at yr Asiantaeth Cefnffyrdd parthed y diffyg arwyddion, gan anfon copi o'r llythyr at Bennaeth Adran Phriffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd.
I ofyn am gyngor gan Un Llais Cymru parthed cyfethol aelodau.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:45pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................